

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P-KW/0916/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

15 Mawrth 2019

Annwyl Lynne

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 26 Chwefror yn gofyn am esboniad pellach o ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiad Graddau Gwahanu'r Pwyllgor ar effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Mae'r llythyr hwn yn ymateb i'r cais hwnnw ac yn darparu rhagor o wybodaeth cyn y sesiwn ar 20 Mawrth.

Rwy'n edrych ymlaen at y drafodaeth ar 20 Mawrth.

Yn gywir

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru fynnu pwerau gweithredol, drwy unrhyw Fil Mewnffudo y DU yn y dyfodol, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheolau mewnffudo sy'n wahanol yn ofodol yn benodol ar gyfer myfyrwyr a staff academaidd yng Nghymru. Nid yw Michelle Brown AC yn cytuno â'r casgliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir y bydd yn cymryd rhan yn ymgynghoriad Llywodraeth y DU ynghylch ei phapur gwyn ar fewnffudo yn y dyfodol. A all Llywodraeth Cymru egluro:

- beth yn union y bydd yn ei geisio gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â staff a myfyrwyr sy'n mewnffudo er mwyn cyflawni'r canlyniadau a amlinellwyd yn ei hymateb; ac
- yn ystod yr ymgynghoriad, a fydd yn gofyn i Lywodraeth y DU ganiatáu iddi wneud rheolau mewnffudo gwahanol ar gyfer staff a myfyrwyr yng Nghymru, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

Ymateb i Argymhelliad 1:

Dyma esiampl o newidiadau'n cael eu hystyried gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig mewn maes polisi heb ei ddatganoli (mewnffudo) a fydd yn cael effeithiau arwyddocaol ar faes polisi datganoledig (addysg uwch). Ym mhapur Llywodraeth Cymru 'Brexit a Datganoli', rydym yn galw am ddull newydd o weithredu gyda medrusrwydd sy'n cydnabod realiti cyfrifoldebau rhyng-gysylltiedig, fel y rhain, gan sicrhau bod pwerau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru'n cael eu hymarfer er budd gwell llywodraethu a chyflawni ar gyfer dinasyddion - mae'r rhyng-chwarae hwn rhwng y polisi mewnffudo a'r polisi AU yn esiampl glir o ble ddylid rhoi'r dull newydd hwn o weithredu ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio cyfrannu at lunio a datblygu polisi ymfudo yn y Deyrnas Unedig, gan bwysleisio pwysigrwydd a buddion mudo i Gymru. Rydym yn gwrthwynebu nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig o leihau niferoedd mudo i darged mympwyol. Dywedodd y Prif Weinidog yn 'Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl' mai ein prif nod yw cyflawni system ymfudo sy'n gweithio i'r Deyrnas Unedig gyfan, o ran negodi perthynas fuddiol yn y dyfodol gyda 27 gwladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ac o ran bodloni anghenion sgiliau Cymru. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwrw ymlaen â pholisi sy'n niweidiol i'n buddiannau yn ein barn ni, byddem yn croesawu dull gweithredu sy'n wahanol mewn ardaloedd penodol, lle byddai gan Lywodraeth Cymru rôl gryfach wrth benderfynu sut byddai mudo i Gymru yn y dyfodol yn cael ei reoli. Byddai hyn yn sicrhau y gall sectorau allweddol, gwasanaethau cyhoeddus a phrifysgolion Cymru barhau i recriwtio o Ewrop. Rhaid i unrhyw ymagwedd o'r fath fod yn seiliedig ar degwch, gorfodi rheolau'n briodol a gweinyddu cymesur.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynnig rhaglen ymgysylltu am 12 mis gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gan ddechrau ym mis Mawrth, y cynnig yw cynnal sesiynau bord gron bob mis yn ystod 2019 ar wahanol agweddau ar y Papur Gwyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno sesiwn ar y sector AU yng Nghymru a byddwn yn parhau i ddatgan y canlynol o ran safbwynt Llywodraeth Cymru:

- mae'n credu bod symud rhydd parhaus ar draws Ewrop o'r budd gorau i Gymru ac i'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol;
- mae'n ystyried bod unrhyw gyfyngiadau ar ein SAUau i ddarparu eu gwasanaethau'n effeithiol yn arwain at gyfyngu ar fasnach;
- nid yw'n credu y dylid cyfrif myfyrwyr mewn targedau mudo net - mae myfyrwyr yn dod i'r Deyrnas Unedig i astudio ac mae'r mwyafrif yn dychwelyd adref ar ôl cwblhau eu cwrs a byddai cyfyngiad mympwyol o dair blynedd yn achosi anawsterau diangen i fyfyrwyr ar gyrsiau pedair blynedd neu ran amser;

- nid yw'n dymuno gweld cyfyngiadau mewnfudo ychwanegol ar gyfer myfyrwyr a staff o AEE/Y Swistir, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer gwladolion trydydd gwledydd drwy system fisa Haen 4;
- nid yw eisiau gweld unrhyw gyfyngiad ar nifer y myfyrwyr sy'n gallu dod i astudio i Gymru; ac
- mae'n bwysig nad yw polisi a negeseuon Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn tanseilio'n sylweddol allu prifysgolion i ddenu staff a myfyrwyr rhyngwladol, a bod cae chwarae teg ledled y Deyrnas Unedig.
Ein blaenoriaeth yw ceisio sicrhau bod rheolau mewnfudo'r Deyrnas Unedig mewn perthynas â myfyrwyr a gweithwyr yn bodloni anghenion y Deyrnas Unedig gyfan, a byddwn yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i geisio sicrhau'r amcan hwn.

Argymhelliad 4. *Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwefan a deunydd marchnata Study in Wales, sy'n rhan o'r rhaglen Cymru Fyd-eang, yn cael eu diweddarau a'u hadnewyddu ar frys, gan gynnwys gwybodaeth am warant cyllid myfyrwyr yr UE ar gyfer 2019/20.*

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn deall mai Prifysgolion Cymru sy'n berchen ar wefan Study in Wales, sy'n awgrymu na fyddai gan Lywodraeth Cymru yr awdurdod i gymryd y camau a nodwyd yn yr ymateb heb weithio'n agos gyda Phrifysgolion Cymru. Bydd y Pwyllgor yn ddiolchgar am rywfaint o eglurhad ar y pwynt hwn.

Ymateb i Argymhelliad 4:

Mae'n gywir yn wir nad yw gwefan Study in Wales a'i deunydd marchnata'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae is-grŵp marchnata Cymru Fyd-eang wedi cael ei sefydlu gan Brifysgolion Cymru, drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid Cymru Fyd-eang, i adolygu'r brand Study in Wales, y wefan a chynnwys a deunyddiau marchnata yn y dyfodol. Bydd yr is-grŵp yn ystyried unioni'r brand Study in Wales yn well â brand y genedl 'Cymru Wales', yn ogystal ag ystyried y cyfle i fabwysiadu dull mwy unedig o hyrwyddo Cymru i'r byd. Mae'r cyfle i wefan Study in Wales unioni'n well â phrosiect Porth Digidol Cymru, neu gael ei hintegreiddio'n llawn ynddo, i ddarparu dull cydlynol o weithredu er mwyn hybu Cymru yn rhyngwladol. Mae'r llwyfan hwn yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei reoli ganddi. Mae'n un o sawl opsiwn sy'n cael ei ystyried, a Bwrdd Cymru Fyd-eang fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Argymhelliad 6. *Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, ddarparu gwybodaeth am effaith ddisgwyliedig rhaglen Cymru Fyd-eang II, gan gynnwys y niferoedd disgwyliedig o fyfyrwyr a buddion mesuradwy eraill.*

Roedd y Pwyllgor yn siomedig nad oedd yr ymateb yn cynnwys y wybodaeth fanwl a meintiol a nodwyd yn benodol yn yr argymhelliad, yn enwedig gan fod Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Byddai'r wybodaeth hon yn galluogi'r Pwyllgor i graffu'n briodol ar ymyrraeth Llywodraeth Cymru gwerth £3.5 miliwn, yn ymwneud â Brexit. Yn unol â'r argymhelliad gwreiddiol, a all Llywodraeth Cymru nodi:

- yr achos busnes gwreiddiol neu ddogfennaeth proses ymgeisio Cymru Fyd-eang II;
- unrhyw dargedau meintiol terfynol y cytunwyd arnynt ar gyfer ysgoloriaethau / symudedd rhyngwladol a niferoedd disgwyliedig myfyrwyr rhyngwladol;
- pob un o ganlyniadau'r rhaglen nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr uchod; a
- manylion unrhyw byrth / sbardun ariannu ar gyfer rhyddhau cyllid pellach os nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr uchod.

Ymateb i Argymhelliad 6:

Rwyf yn atodi manylion am y cynnig busnes Cymru Fyd-eang fel Atodiad 1 y ddogfen hon.

Mae'r trefniadau cyllido'n cael eu rheoli gan CCAUC ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys taliadau sy'n cael eu gwneud yn chwarterol am yn ôl ar ôl derbyn diweddariadau naratif interim ar gynnydd a wnaed tuag at yr elfennau i'w cyflawni y cytunwyd arnynt, ac ar weithgarwch y prosiect. Hefyd rhaid i Gymru Fyd-eang II ddarparu Adroddiad Prosiect Blynyddol yn ystod pob blwyddyn o'r rhaglen.

Nid oedd cynnig Cymru Fyd-eang II yn cynnwys unrhyw dargedau penodol yn ymwneud â nifer y myfyrwyr rhyngwladol disgwylidig, gyda'r ansicrwydd fydd Brexit yn ei greu yng nghyswllt y rhain yn cyfrannu at hynny. Hefyd byddai'n anodd priodoli unrhyw gynnydd yn benodol i'r ymyriad hwn oherwydd gallai sawl ffactor arall gyfrannu. Fodd bynnag, mae gwerthusiad o Gymru Fyd-eang II yn cael ei gomisiynu a bydd rhan o hynny'n cynnwys mesurau effaith allweddol, gan gynnwys nifer y myfyrwyr, i mewn ac allan, ac effeithiau eraill fel perthnasoedd ymchwil ac ymgysylltu digidol a gyflawnir o ganlyniad i'r cyllid hwn.

Gwnaed cynnydd yn barod gyda rhaglen Cymru Fyd-eang II yn ystod y misoedd ers cyhoeddi'r cyllid: Fe wnes i lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ran Llywodraeth Cymru gyda Gweinidog Addysg a Hyfforddiant Fietnam yn ystod ei ymweliad â Chymru ym mis Ionawr. Mae hyn yn cynnwys targed o 20 o ysgoloriaethau Chevening-Prifysgolion Cymru gyda chyllid llawn i astudio yng Nghymru yn ystod 2020-22. Mae swyddogion yn trafod gyda Cymru Fyd-eang i ddatblygu Cynllun Gweithredu i danategu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn cynnwys rhagor o fanylion am y pethau y gellir eu cyflawni er mwyn sefydlu cytundeb dilynol gyda chydweithwyr yn Fietnam, gyda golwg ar lofnodi'r cytundeb yn ddiweddarach eleni. Mae cynnig Cymru Fyd-eang II hefyd yn cynnwys targedau i ddatblygu ysgoloriaethau o'r fath yn Ewrop ac UDA. Mae disgwyl y bydd y rhain yn debyg o ran niferoedd.

Hefyd mae Cymru Fyd-eang II wedi cytuno i gyllido rhaglen beilot i fyfyrwyr sydd eisiau teithio i Fietnam ac UDA. Rhaglen sy'n cael ei chyflwyno gan Gyngor Prydain yw hon. Bydd hyn yn cyllido 100-140 o fyfyrwyr yn mynd allan i astudio fel rhan o'r rhaglen beilot. Bydd hyn yn ategu gwaith peilot symudedd rhyngwladol Llywodraeth Cymru, sydd â chyrhaeddiad daearyddol ehangach, gan roi cyfanswm o 550-690 o gyfleoedd symudedd yn 2019/20 - 2020/21.

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach i weithredu a phrofi trefniadau ariannu a fydd yn gwarantu dim amhariad nac ansicrwydd ariannol i fyfyrwyr ERASMUS+, yn enwedig y rheini sy'n gwneud graddau iaith fodern, gan ystyried yr amodau sy'n gysylltiedig â gwarant cyfredol y Trysorlys. Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn pan fydd wedi gwneud hynny.

Roedd y Pwyllgor yn siomedig nad oedd ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi unrhyw sicrwydd i fyfyrwyr sy'n disgwyl, neu'n gorfod, bod yn rhan o gynllun symudedd rhyngwladol yn 2019/20. Bwriad argymhelliad y Pwyllgor oedd cael sicrwydd ynglŷn ag osgoi tarfu ar fyfyrwyr yn y tymor byr, yn hytrach na disodli'r rhaglen yn y tymor hwy, fel y mae ymateb Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arno.

A all Llywodraeth Cymru roi manylion am y modd y mae'n bwriadu osgoi tarfu yn y tymor byr ar fyfyrwyr sy'n rhan o gynlluniau symudedd yn 2019/20 os na fydd cytundeb (gan

ystyried yr amodau sydd ynghlwm wrth warant y Trysorlys) ac a all ddweud wrthym a yw wedi cadarnhau y bydd y trefniadau hyn yn effeithiol.

Ymateb i Argymhelliad 7:

Ar 12fed Chwefror cyhoeddodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ei [adroddiad ar Brexit ac Erasmus / Horizon](#).

Argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

90. Rydym yn nodi amharodrwydd presennol y Comisiwn Ewropeaidd i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch camau gweithredu posib i warchod pobl ar gyfnewidiadau Erasmus+ a phrosiectau Horizon 2020 os bydd Brexit 'heb gytundeb', ond yn annog y Llywodraeth i barhau â'i hymdrechion i sicrhau datrysiad gyda'r Comisiwn i osgoi unrhyw darfu. Rydym yn parhau'n eithriadol bryderus am y diffyg amser sydd ar gael i drafod ac i gadarnhau'r cynlluniau 'dim cytundeb' wrth gefn hyn. Os nad oes modd cytuno ar ddatrysiad, dylai'r Llywodraeth ddefnyddio cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y warant tanysgrifennu i sefydlu cynlluniau cyllido symudedd ac ymchwil newydd ar gyfer y Deyrnas Unedig cyn gynted â phosib.

91. Dylai'r Llywodraeth, ar frys, ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae'n bwriadu i'w gwarant tanysgrifennu weithredu'n ymarferol, gan gynnwys pwy fydd yn talu'r cyllid a pha delerau ac amodau fydd yn berthnasol i fuddiolwyr. Rydym yn argymhell y dylai amserlenni ar gyfer rhyddhau taliadau a systemau monitro ac adrodd fod mor debyg â phosib i'r rhai sydd wedi'u datgan yn y cytundebau grant gwreiddiol, i ddarparu sicrwydd ac i leihau unrhyw darfu ar gyfer cyfranogwyr y Deyrnas Unedig sy'n symud drosodd i'r system newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r argymhelliad a amlygwyd uchod. Mae cyfraniad y Deyrnas Unedig at gyllideb yr Undeb Ewropeaidd - ac felly'r arian sydd ei angen i dalu costau unrhyw drefniant yn ei le – ym meddiant Trysorlys Ei Mawrhydi, ac nid yw ym meddiant y Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir o'r dechrau na ddylai Cymru fod ar ei cholled o ganlyniad i Brexit. Ein safbwynt dewisol yw parhau i gymryd rhan yn Erasmus. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn methu â sicrhau hynny, yna rhaid iddi sicrhau nad oes unrhyw darfu ar fyfyrwyr a hwyluso'r broses o roi trefniadau amgen ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi codi'r mater hwn ynghylch cyllido a chyflwyno trefniadau amnewid gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar lefel swyddog a Gweinidogol ac mae'n aros am ymateb ynghylch barn Llywodraeth y Deyrnas Unedig am argymhelliad pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

Byddaf yn parhau i godi'r mater hwn, ochr yn ochr â fy nghydweithiwr yn yr Alban, Richard Lochhead ASE, y Gweinidog ar gyfer Addysg Bellach, Addysg Uwch a Gwyddoniaeth, a chynrychiolwyr o weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ein cyfarfodydd pedairochrog misol.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda Phrifysgolion Cymru, y Cyngor Prydeinig a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i amlinellu'r effeithiau economaidd ar Brifysgolion Cymru pe byddem yn cael ein gorfodi i adael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb ar 29 Mawrth.

Argymhelliad 8. Rhaid i Lywodraeth Cymru gomisiynu prosiect ymchwil arall, gan adeiladu ar y gwaith diweddar a lywiodd y cynllun peilot ar symudedd rhyngwladol, i ddatblygu darlun manylach o effaith symudedd rhyngwladol ar ganlyniadau myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau cadarnhaol y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u cymryd mewn perthynas â symudedd rhyngwladol. Fodd bynnag, o'i hymateb, mae'n aneglur a yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnal a chyhoeddi'r astudiaeth ai peidio. A all Llywodraeth Cymru:

- gadarnhau y bydd yn comisiynu'r astudiaeth hon yn unol â'r argymhelliad; ac
- y bydd yr astudiaeth yn mynd i'r afael yn benodol â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd addysg uwch.

Ymateb i Argymhelliad 8:

Gwnaed ymrwymiad i werthuso'r peilot symudedd tramor er mwyn asesu ei effeithiolrwydd. Er y bydd data'n cael eu casglu yn ystod y peilot, ni fydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru nes bod gweithgarwch y peilot wedi dod i ben yn ystod haf 2021. Bydd hyn yn galluogi i ni ddeall effaith y prosiect hwn ar fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ymhlith eraill. Efallai y bydd cyfleoedd i ymgymryd â gwaith ychwanegol o ran effaith symudedd rhyngwladol tymor byr ar symudedd cymdeithasol ac ehangu mynediad ochr yn ochr â gwerthusiad y peilot. Felly, ni chredir ei bod yn angenrheidiol, nac yn fuddiol iawn, comisiynu astudiaeth arall ar hyn o bryd.

Efallai y caiff tystiolaeth a allai fod yn sail i'r argymhelliad hwn ei chasglu wrth i ni symud ymlaen gyda'r cynlluniau i werthuso diwygiadau Adolygiad Diamond i gymorth myfyrwyr.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i weithio ar y cyd â'r sector addysg bellach i ddatblygu a chyhoeddi cynllun ar y cyd, a ariennir gan gais am gyllid o Gronfa Bontio'r UE a chan ystyried yr anghenion rhanbarthol gwahanol, i nodi ac ymateb i unrhyw ofynion sgiliau newidiol y sectorau hynny sydd fwyaf tebygol o wynebu amhariad sy'n gysylltiedig â Brexit.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn, ac yn croesawu'r manylion a gafwyd ynghylch y gwaith a wnaed gyda / gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Fodd bynnag, o ddarllen yr ymateb, nid yw'n ymddangos y bydd cynllun ar y cyd yn cael ei ddrafftio'n unol ag argymhelliad y Pwyllgor. A all Llywodraeth Cymru:

- egluro a fydd cynllun ar y cyd o'r natur hwn yn cael ei ddatblygu; a
- rhoi manylion y prosiectau y cyfeirir atynt yn yr ymateb.

Ymateb i Argymhelliad 11:

Fel y nodais yn fy ymateb blaenorol, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'n partneriaid strategol i unioni'r sgiliau rhanbarthol sy'n cael eu darparu â chyfleoedd buddsoddi a thwf, a hynny fel rhan o symudiad i roi dull strategol newydd ar waith yng nghyswllt cynllunio a chyllido ôl-16. Mae'r cynllunio strategol yn gofyn i golegau AB baratoi cynlluniau'n seiliedig ar anghenion sgiliau rhanbarthol fel y nodir gan waith y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Mae'r cynlluniau'n sail i ystod eang o feysydd polisi sgiliau, yn ogystal â meysydd blaenoriaeth rhanbarthol a lleol penodol ar gyfer rhaglenni fel y Rhaglen Blaenoriaethau Sector a'r rhaglen cyflogadwyedd newydd. Maent hefyd yn darparu'r sail dystiolaeth cyflogadwyedd a sgiliau ar gyfer Dinas-Ranbarthau a Bargeinion Twf. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, dan arweiniad Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, wedi cysoni'r gwaith o ddatblygu cynlluniau rhanbarthol blynyddol â'r Cylch Cynllunio Ôl-16. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir gan Sefydliadau Addysg Bellach yn cael ei llywio gan y sail dystiolaeth a ddarperir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y cynlluniau presennol sy'n cael eu datblygu yn canolbwyntio ar anghenion newidiol Cymru o ganlyniad i amhariadau sy'n gysylltiedig â Brexit. Credwn y bydd y fframwaith presennol ar gyfer datblygu cynllunio ôl-16 yn cyflawni'r un canlyniadau â'r cynllun ar y cyd a gynigiwyd gan y Pwyllgor, ond o fewn y fframweithiau presennol, gan leihau'r angen am feichiau ychwanegol ar ein partneriaid. Gan hynny, ar ôl pwysu a mesur, derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Nod y system sgiliau bresennol yw ymateb i anghenion Cymru a nodi meysydd datblygu a fydd yn gwella cadernid economi Cymru yn y tymor hir. Yn sail i hyn mae anghenion rhanbarthol sydd wedi'u datgan drwy bartneriaeth â chyflogwyr, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, colegau AB a darparwyr hyfforddiant.

Mewn perthynas â chynllunio ar gyfer Brexit, mae fy swyddogion i wedi cyfarfod Penaethiaid AB a chynrychiolwyr Colegau Cymru ac AB ac mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru'n aelod o'r Gweithgor Brexit Addysg Uwch a Phellach, a gyfarfu ar 19 Chwefror i drafod cynllunio ar gyfer dim cytundeb. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid strategol er mwyn ymateb i anghenion Cymru mewn byd ar ôl Brexit.

Rydych wedi gofyn am ragor o fanylion am y cynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer cyfres o brosiectau sgiliau i helpu i feithrin cadernid Cymru, os nad oes cytundeb. Mae'r cynigion hyn yn cael eu datblygu mewn perthynas â thair thema allweddol:

- Cefnogi pobl i ymuno â'r byd gwaith cyflogedig neu ddychwelyd iddo
- Cefnogi prentisiaid
- Mynd i'r afael â thangyflogaeth, cefnogi busnesau i ddatblygu sgiliau newydd ac annog buddsoddiad busnes i mewn i Gymru ac yng Nghymru

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd sylfaenol ymchwil ac arloesi i ffyniant Cymru a chydabod y perygl o golli tir i Loegr a'r Alban o ran ariannu'r gweithgareddau hyn yn yr hyn sy'n sefyllfa gystadleuol iawn. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau ariannu'r argymhellion a wnaed gan yr Athro Reid yn ei adolygiad ar unwaith.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu mai dim ond yn rhannol y derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, a'i bod yn parhau i beidio â darparu'r arian angenrheidiol i weithredu'r holl argymhellion a wnaed gan yr Athro Graeme Reid.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod argymhellion yr Athro Reid wedi'u gwneud mewn ymateb i'r cyfleoedd trawsnewidiol posibl sydd ynghlwm wrth fuddsoddiad cynyddol Llywodraeth y DU ym maes ymchwil ac arloesi, a'r tebygolrwydd y byddwn yn colli'r arian Ewropeaidd y mae prifysgolion Cymru wedi bod yn dibynnu arno. Cred y Pwyllgor fod yr argymhellion yn cynnig ffordd o wireddu cyfleoedd arwyddocaol iawn i Gymru gyfan ar ôl Brexit.

Mae'r Pwyllgor yn deall bod CCAUC, yn y tymor hir, yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu'r cronfeydd gwahanol a awgrymir gan yr Athro Reid. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pa gymorth y bydd yn ei roi i CCAUC i'w alluogi i gyflawni hyn yn y tymor byr.

Ymateb i Argymhelliad 12:

Mae Swyddfa Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwyddoniaeth newydd benodi swyddog yn Llundain ac mae wrthi'n recriwtio person arall, gyda'r ddau i'w lleoli yn y Swyddfa bresennol yn Llundain, gyda rhan ohoni'n cael ei hadnewyddu, i helpu gyda hybu negeseuon cysylltiedig ag ymchwil, arloesi a sgiliau. Bydd yn ceisio gwella ein perthynas a'n hymgysylltu dwyochrog ag Adrannau ac Asiantaethau priodol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ochr yn ochr â hyn, mae Prif Gyngorydd Gwyddonol Cymru, ei dîm yn Swyddfa Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwyddoniaeth a swyddogion polisi allweddol eraill Llywodraeth Cymru wedi bod yn defnyddio swyddfa Llundain i gynnal cyfarfodydd gyda BEIS ac UKRI, ymhlith eraill, i feithrin perthnasoedd cadarnach yn gyffredinol. Maent yn bwriadu i hyn barhau.

Ail argymhelliad yr Athro Reid yw cymeradwyo argymhellion Diamond, sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae CCAUC newydd dderbyn llythyr cylch gwaith wedi'i ddiweddarau ar gyfer 2018/19, sy'n cynnwys y canlynol: 'Hefyd, mae £6.6m ychwanegol (£4.2m o gyllid referniw a £2.4m o gyllid cyfalaf) wedi cael ei neilltuo i gefnogi ymchwil addysg uwch yng Nghymru, yn unol â dull o weithredu sy'n gyson ag argymhelliad 2 Adolygiad Reid.'

Yn y dyfodol rydym yn bwriadu sicrhau bod cyllid ar gael i alluogi i raglen debyg i'r Gronfa Arloesi Addysg Uwch gael ei sefydlu, ac ailsefydlu cyllid Ymchwil o Ansawdd i'w lefel flaenorol, gyda'i gilydd.

O ran Argymhelliad 3, rydym yn edrych ar frand cyffredinol i gydlynu cyllid - Rydym yn ystyried sut orau i weithredu gyda hyn, a chydlynu'r cyngor a'r cyllid presennol yw'r cam pwysicaf. Rydym eisoes wedi sefydlu grŵp mewnol sy'n cynnwys swyddogion o'r holl brif feysydd sy'n cyllido ac yn cefnogi gweithgarwch ymchwil ac arloesi, i fod yn gwbl sicr bod ymdrechion Llywodraeth Cymru'n parhau i gael eu cydlynu ac i gynllunio rhagor o weithgarwch cydlynu.